**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/P/LG/2181/20

Y Gwir Anrhydeddus Kwasi Kwarteng
Gweinidog Gwladol Busnes ac Ynni
Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET

cabinetcommittees@beis.gov.uk

14 Gorffennaf 2020

Annwyl Weinidog

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r ymgynghoriad presennol ar y gefnogaeth yn y dyfodol i wres carbon isel. Ysgrifennais atoch ym mis Ebrill i gadarnhau fyd mod yn fodlon i'r ymgynghoriadau fynd ymlaen ar ran Llywodraeth Cymru ac i'r cynigion gynnwys cymorth i gartrefi a busnesau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r camau yr ydych yn eu cymryd i gyflawni ein hamcanion datgarboneiddio ar y cyd. Yn enwedig yn dilyn yr argyfwng Covid 19 presennol, rydym yn gytûn ar yr angen i warchod y gadwyn gyflenwi sy'n datblygu ar gyfer gwres carbon isel.

Fodd bynnag, yn fy marn i, mae perygl i'r canolbwyntio ar werth am arian o fewn y cynllun yn y dyfodol fod ar draul ystyriaeth ddigonol o'r effaith ar dlodi tanwydd. Byddem yn dewis dull mwy hirdymor gydag ystod ehangach o dechnolegau, a fyddai'n helpu i greu marchnad gynaliadwy ar gyfer ystod eang o dechnolegau gwres carbon isel fydd eu hangen arnom i gyflawni ein targedau datgarboneiddio.

Rydym wedi ei wneud yn glir dro ar ôl tro ein bod yn bendant yn ffafrio pympiau gwres hybrid o fewn y cynllun yn y dyfodol. Rwy'n gweld bod y cyngor a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd hefyd yn cynnwys yr argymhelliad i gefnogi pympiau gwres hybrid. Rwyf wedi cydnabod yn y gorffennol y dystiolaeth brin sydd ar gael ar gyfer hybridau. Rwy'n gobeithio y bydd yr ymgynghoriad hwn yn cynnig rhagor o dystiolaeth, fydd yn eich arwain i ail-ystyried cynnwys hybridau mewn cynllun yn y dyfodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi rhoi amlinelliad yn y gorffennol o fy nod i sicrhau y gwerth gorau i Gymru drwy y cynlluniau gwres cynaliadwy presennol a rhai y dyfodol, yn enwedig y rhai hynny sydd mewn perygl o dlodi tanwydd. Er mwyn gwneud hynny hoffem sicrhau bod rheoliadau y cynllun grant Gwres Glân yn golygu bod modd ei ddefnyddio ar y cyd â'n rhaglenni presennol gan Lywodraeth Cymru. Byddwn hefyd am sicrhau bod dulliau cyflenwi y cynllun o dan ymbarél rhaglen Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru a'r Grant Gwres Glân yn ategu ei gilydd, fel y gall gartrefi elwa o'r Grant Gwres Glân yn ogystal â chymroth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Mae eich swyddogion wedi parhau i gydweithio gyda fy rhai i i sicrhau ein bod yn glir ar ddatblygu'r cynigion hyn. Bydd fy swyddogion yn cynnig ymateb manwl i'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio parhaus o ran y cynllun manwl a sefydlu rheolau'r cynllun.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs